# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 16 Ebrill 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

# 200(v5)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cynnig i atal Rheolau Sefydlog

(5 munud)

**NNDM8530** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal y rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NNDM8529 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth, 16 Ebrill 2024.

## 3 Cynnig i gymeradwyo enwebu Cwnsler Cyffredinol

(5 munud)

**NNDM8529** Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth)

Cynnig bod y Senedd, yn unol ag Adran 49(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 9.1, yn cytuno â’r argymhelliad gan Brif Weinidog Cymru i Ei Fawrhydi y Brenin benodi Mick Antoniw AS yn Gwnsler Cyffredinol.

## 4 Enwebiadau ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau

(15 munud)

Bydd y Llywydd yn gwahodd enwebiadau ar gyfer cadeiryddion y pwyllgorau canlynol yn unol â Rheol Sefydlog 17.2F:

1. Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (Llafur)

2. Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad (Llafur)

## 5 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 6 Datganiad gan y Prif Weinidog: Cyflawni blaenoriaethau Cymru

(45 munud)

## 7 Datganiad gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol: Y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) – Gohiriwyd tan 21 Mai

(0 munud)

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân

(60 munud)

## 8 Egwyddorion cyffredinol y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)

**NDM8533** Rebecca Evans Gŵyr

Cynnig bod Senedd Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru).

Gosodwyd y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Senedd ar 20 Tachwedd 2023.

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) gerbron y Senedd ar 15 Mawrth 2024.

**Dogfennau Ategol**

Ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

Ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor Cyllid

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 9 Y penderfyniad ariannol ynghylch y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)

**NDM8532** Rebecca Evans Gŵyr

Cynnig bod Senedd Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

## 10 Cynnig i amrywio trefn ystyried gwelliannau Cyfnod 3 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

(5 munud)

**NDM8531** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Senedd Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yng Nghyfnod 3 yn y drefn a ganlyn:

a) Adrannau 1–12;

b) Atodlen 1;

c) Adrannau 13–17;

d) Atodlen 2;

e) Adran 18;

f) Atodlen 3;

g) Adrannau 19–26;

h) Enw hir.

## 11 Y Bil Seilwaith (Cymru): Hysbysiad Ffurfiol o Gydsyniad Ei Fawrhydi

(5 munud)

## 12 Dadl: Cyfnod 4 y Bil Seilwaith (Cymru)

(15 munud)

**NDM8539** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Seilwaith (Cymru).

Bil Seilawith (Cymru), fel yi diwygiwyd ar l Cyfnod 3

**Dogfennau Ategol**

Datganiad y Llywydd yn unol ag adran 111A(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

## 13 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 17 Ebrill 2024